# Hysbysiad Preifatrwydd Staff

Prifysgol Glyndŵr yw'r rheolydd data o ran gwybodaeth a gedwir ynghylch ei staff, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU). Mae gan Brifysgol Glyndŵr Swyddog Diogelu Data, ac mae modd ei gysylltu drwy dpo@glyndwr.ac.uk

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys trosolwg cyffredinol o ddata personol a brosesir gan Brifysgol Glyndŵr mewn perthynas â'i staff dan y Deddfwriaethau Diogelu Data a bwriedir iddi gael ei darllen ar y cyd â'r Tabl Hysbysiad Preifatrwydd Staff Prifysgol Glyndŵr Wrecsam sy'n manylu'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol.**

## Pa wybodaeth ydym yn ei chasglu?

Mae'r Brifysgol yn casglu'r data personol canlynol gan ei staff:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a gwybodaeth adnabod eraill (rhif yswiriant cenedlaethol a dyddiad geni).
- Gwybodaeth ynghylch cymhwysedd i weithio gan gynnwys pasbort, cymwysterau.
- Holiadur meddygol (aelodau newydd o staff) a chofnodion arolygon iechyd o ran swyddi priodol a deiliaid y swyddi.
- Manylion cyswllt y perthynas agosaf i'w ddefnyddio mewn argyfwng.
- Manylion banc at ddibenion talu.
- Gwybodaeth a gesglir at ddibenion monitro cyfle cyfartal.
- Gwybodaeth bersonol sy'n berthnasol i brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol gan gynnwys y weithdrefn disgyblu, cwyno, a'r weithdrefn gallu, absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadau, rhiant a mathau eraill o absenoldeb arbennig, ceisiadau gweithio'n hyblyg.
- Gwybodaeth bersonol sydd wedi ei chasglu drwy archwiliadau i gwynion myfyrwyr.
- Ar gyfer staff rhyngwladol: Copïau o basbortau, fisas ac unrhyw ddogfennau eraill sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion UKVI a gofynion ar ôl BREXIT.
- Lluniau a recordiadau o ddarlithoedd lle bo'n briodol.
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag atal a chanfod troseddau a diogelwch staff, gan gynnwys CCTV a Chamerâu ar y Corff, lle mae angen prosesu o'r fath ar gyfer y sefydliad a data mynediad.
- Gwybodaeth ynghylch cofnodion trwydded yrru.
- Gwybodaeth ynghylch salwch/absenoldeb.
- Cofnodion iechyd galwedigaethol staff sydd wedi eu cyfeirio at yr ymgynghorwyr Iechyd Galwedigaethol (yn fewnol ac yn allanol).
- Cofnodion datblygu (a hyfforddiant), gwybodaeth cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad, cofnodion arsylwadau addysgu.
- Aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Brifysgol.
- Manylion dyrannu llwyth gwaith ac amserlennu, patrymau shifft a rhestrau shifftiau.
- Rhifau symudol personol a/neu gyfeiriadau e-byst preifat er mwyn sicrhau ailosod cyfrineiriau Prifysgol.

- Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch gan gynnwys asesiadau risg, cofnodion damweiniau a hyfforddiant Iechyd a Diogelwch penodol.
- Cofnodion ymchwil personol.
- Gwybodaeth ynghylch ieithoedd a siaredir.
- Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol; eich enw, manylion cyswllt, manylion gwisg broffesiynol at ddibenion archebu gŵn.
- Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol drwy ffrwd byw o'r seremonïau ar-lein.

Lle bo'n briodol, bydd rhai swyddi wedi eu dyrannu i 'Gategorïau arbennig' o ddata personol. Yn yr achosion hynny, data sy'n berthnasol i darddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, crefydd neu gredoau athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometreg, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol yr unigolyn. Bydd hyn yn cael ei amlygu, a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gydag unigolion, pan fo staff yn ymgymryd â rolau 'categori arbennig'.

## Pam ein bod yn casglu'r wybodaeth hon?

Mae'n rhaid i PGW gasglu data personol er mwyn bodloni nifer o ofynion:

- Ar gyfer gwaith gweinyddu adnoddau dynol, gweinyddu ariannol a darpariaeth pensiwn.
- Darparu gwasanaethau ar ran y Brifysgol
- Cynnig gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr lle gall myfyrwyr fod ag anghenion penodol
- Monitro cyfleoedd cyfartal yn unol â deddfwriaeth ac arfer da cydnabyddedig
- Ymgymryd â dadansoddiad ystadegol ac ymchwil
- Cynnig gwybodaeth weithredol
- Hyrwyddo ein gwasanaethau
- Diogelu a hyrwyddo llesiant y myfyrwyr
- Sicrhau diogelwch myfyrwyr
- Atal a chanfod trosedd.

## Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu?

Wrth brosesu data personol staff, mae'r Brifysgol yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol fel sy'n briodol:

- Mae angen prosesu er mwyn cyflawni'r cytundeb gyda gwrthrych y data
- Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
- Mae angen prosesu er mwyn i chi gynnal tasg er mantais i'r cyhoedd, a'r bod ganddi sail glir yn y gyfraith
- Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer diddordebau cyfreithlon y Brifysgol neu ddiddordebau cyfreithlon trydydd parti, oni bai fod rheswm da i ddiogelu data personol unigolyn sy'n mynd y tu hwnt i'r diddordebau cyfreithlon hynny.

I brosesu data categori arbennig, mae'r Brifysgol yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ganlynol:

- Mae angen prosesu er mwyn bodloni dyletswyddau'r rheolydd neu wrthrych y data yn y maes cyflogaeth.

- Mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg y mae gan y cyhoedd ddiddordeb mawr ynddi, yn unol â chyflyrau penodol a nodwyd o dan Amserlen 1, Penodau 6-28 Deddf Diogelu Data 2018.

## Pwy yw'r derbynwyr neu gategorïau’r derbynwyr?

Lle bo angen, bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn fewnol o fewn yr ysgolion ac adrannau ledled y Brifysgol. Bydd rhannu o'r fath yn dilyn protocolau cyfrinachedd a chyfyngiadau mynediad.

Bydd y Brifysgol yn gwneud rhai datgeliadau statudol ac arferol o ddata personol i drydydd partïon lle bo hynny'n briodol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif sefydliadau y gallwn ddatgelu data iddynt:

- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
- Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI)
- Cyllid a Thollau EM (CThEM)
- Cynlluniau pensiwn - gan gynnwys Pensiwn Athrawon (TP), y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a'r Cynllun USS
- Noddwyr/cyllidwyr ymchwil
- Undebau Llafur
- Darpar gyflogwyr (lle gofynnir am eirda)
- Yr Asiantaeth Budd-daliadau yn ôl gofyn y Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
- Yr Asiantaeth Cynnal Plant yn ôl gofyn Rheoliadau Gwybodaeth Cynnal Plant 2008 (rhif 2551)
- Y Gwasanaethau Diogelwch a'r Heddlu, lle bo protocolau diogelu data priodol wedi eu dilyn
- Ede and Ravenscroft, darparwr gwisg academaidd y Brifysgol.
- Enterprise, darparwr ceir llog y Brifysgol.
- Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol gan olygu'n briodol lle bo'n bosibl.

Gall data personol gael ei ddatgelu hefyd pan fo angen yn gyfreithiol neu pan fo buddiant dilys, un ai ar gyfer y Brifysgol neu wrthrych y data, gan ystyried unrhyw ragfarn neu niwed a all fod i wrthrych y data.

Gall y Brifysgol hefyd ddefnyddio cwmnïau trydydd parti fel proseswyr data i ymgymryd â swyddogaethau gweinyddol penodol ar ran y Brifysgol. Os felly, bydd cytundeb ysgrifenedig yn cael ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw ddata personol sy’n cael ei ddatgelu yn cael ei gadw yn unol â'r cyfreithiau diogelu data.

## Trosglwyddo i drydydd gwledydd a'r camau diogelu sydd yn eu lle

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â rhai gweithgareddau tramor. Ar adegau, bydd ychydig o wybodaeth bersonol sy'n berthnasol i deithio, addysgu, ayyb. yn cael ei datgelu.

## Cadw data

Mae'r holl ddata personol yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn briodol yn unol ag [Amserlen Cadw'r Brifysgol]

Mae'r Amserlen hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn penderfynu am ba hyd y mae gwybodaeth benodol yn cael ei chadw.

## Diogelwch data

Mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar ein systemau electronig diogel lle mae mynediad yn cael ei reoli'n llym gan gyfrinair, fel bod rheolwyr a staff yn gweld y wybodaeth berthnasol ac sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swydd yn unig. Mae ffeiliau personol a data sensitif eraill (copi caled) yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio o fewn ystafelloedd dan glo sydd â mynediad cyfyngedig.

## Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i adfer, dileu, cyfyngu ar a chludo eich gwybodaeth bersonol.

Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol i weld manylion ynghylch eich hawliau.

Dylid gwneud unrhyw gais neu wrthwynebiad drwy ysgrifennu at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:

**Swyddog Diogelu Data**
Prifysgol Glyndŵr
Campws Plas Coch,
Ffordd yr Wyddgrug,
Wrecsam,
LL11 2AW
E-bost: dpo@glyndwr.ac.uk

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd y mae eich data personol wedi ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn gyntaf drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn parhau i fod yn anhapus, mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,  SK9
5AF
www.ico.org.uk

**Rheoli fersiwn:**

| | | |
|---|---|---|
| **Drafftiwyd: Mai 2018** | **Awdur: Joy Morton** | **Dyddiad Adolygu: Mai 2019** |
| **Adolygwyd: Awst 2018** | **Awdur: Leonna Messiter** | **<u>Newidiadau a wnaed: Ychwanegiadau i adran: 'Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?'</u>**<br><br>Gwybodaeth bersonol sydd wedi ei chasglu drwy archwiliadau i gwynion myfyrwyr<br><br>Rhifau symudol personol a/neu gyfeiriadau e-byst preifat er mwyn sicrhau ailosod cyfrineiriau Prifysgol.<br><br>Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol; eich enw, manylion cyswllt, manylion gwisg broffesiynol at ddibenion archebu gŵn. |
| | | Eich presenoldeb yn seremonïau Graddio'r Brifysgol drwy ffrwd byw o'r seremonïau ar-lein.<br><br>Ychwanegiadau i adran: 'Pwy yw'r derbynwyr neu gategorïau'r derbynwyr?'<br><br>Ede and Ravenscroft, darparwr gwisg academaidd y Brifysgol.<br><br>Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol gan olygu'n briodol lle bo'n bosibl. |

| | | |
|---|---|---|
| **Adolygwyd** Ebrill 2022 | **Awdur:** Leonna Messiter | **Ychwanegiadau:**<br>GDPR wedi'i ddiweddaru i GDPR y DU<br>Camerâu ar y Corff wedi'u cynnwys |